# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION – CYFARFOD MEHEFIN 2019

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 19eg o Fehefin, 2019** |
| **AMSER** | **6.15yh Cyfarfod Is-bwyllgor Mynwent (ym Mynwent Cefnfaes)**<br>**7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **YSGOL RHOSTRYFAN** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso** |
| | Estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Michelle Williams. Yn bresennol roedd, Gwilym Lloyd Williams, Gwilym Thomas, Rhodri Dwyfor, Bryn Hughes, Aeron M Jones, Elin Evans ag Eleri Thomas (Clerc). |
| **2.** | **Ymddiheuriadau** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Nerys Evans, Peter Roberts, Jason Hunt, Huw Rowlands ag Tom Ellis. |
| **3.** | **Datgan Buddiant** |
| | Dim buddiant i'w ddatgan. |
| **4.** | **Cadarnhau cofnodion 15.05.19 a materion yn codi** |
| | Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir gan AMJ ag eiliwyd gan MW. |
| **5.** | **Materion Misol** |
| | a) Bysiau<br>Sefyllfa'r gwasanaethau bysiau wedi gwella erbyn hyn a dim problemau i'w hadrodd. Penderfynwyd peidio â thrafod y mater yn y cyfarfod nesaf.<br><br>b) NE – Twll yn llwybr Bryngwyn<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi cysylltu gyda Chwmni Gwalch â'u bod wedi cytuno i gyfarfod gyda NE i edrych ar y postia sydd wedi pydru.<br><br>c) AMJ - Cyfansoddiad a Pholisïau'r Cyngor<br>Cadarnhaodd AMJ y byddai'n anfon copi o'r holl bolisïau i'r aelodau a'r clerc er mwyn eu mabwysiadu yn y cyfarfod nesaf.<br><br>d) Safle we gyfredol + ymgysylltu gyda'r cyhoedd – www.cyngorllanwnda.co.uk<br>Nododd y clerc ei bod wedi creu tudalen "Cyngor Cymuned Llanwnda" ar Facebook, lle all y Cyngor rannu gwybodaeth ag hefyd linc i aelodau o'r cyhoedd allu anfon e-bost i'r clerc i adrodd unrhyw bryderon. Codwyd pwynt gan GT nad oedd cofnodion y Cyngor wedi ei gynnwys ym mhapur Lleu mis diwethaf, cadarnhaodd y clerc y byddai copi ohonynt yn y rhifyn nesaf.<br><br>e) Rhaglen waith 5 mlynedd 2019-2023<br>AMJ i greu taflen i holi'r trigolion beth fyddent yn hoffi ei weld yn yr ardal a'r cynghorwyr i'w dosbarthu o gwmpas.<br><br>f) BH - Sefyllfa traffig o flaen Ysgol Rhostryfan<br>Adroddodd BH ei fod yn disgwyl copi o asesiad risg gan yr Ysgol.<br><br>g) Problem Llygod – ardal Rhosgadfan<br>Derbyniwyd e-bost gan PR yn cadarnhau fod CCG wedi cael cyfarfod gyda'r tenantiaid a'u bod yn cydnabod bod problem gyda llygod mawr yn yr ardal ac y byddent yn delio gyda'r mater. Penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf.<br><br>h) AMJ – Gwahodd Dyfrig Siencyn, CG<br>Derbyniodd y clerc gadarnhad y byddai Dyfrig Siencyn yn mynychu cyfarfod y Cyngor mis Hydref. Nododd y clerc y byddai DS yn hoffi gwybod pa gwestiynau neu bryderon oedd |

| | |
|---|---|
| | gan y Cyngor ymlaen llaw.<br><br>i) NE – Dim gwastraff Niwclear a gwrthod i ffracio<br>Awgrymodd BH efallai y byddai'r Cyngor yn gwneud datganiad i'w wrthwynebu.<br>Yn absenoldeb NE penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf.<br><br>j) TE - Parcio ar y palment yn broblem yn Ninas (arwyddion cwrw ar y cledrau)<br>Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'r adran Asiantaeth Cefnffyrdd ynghyd a'r heddlu ynglŷn ar broblem.<br><br>k) PR - Gwydrau tu allan i Ysgol Rhosgadfan + Baw Cwn<br>Eglurodd RD nad oedd y gwydrau wedi ei lanhau hyd yma. Gofynnwyd i'r clerc ail-gysylltu gyda CG.<br><br>l) GW – Maen Brith – falfiau Dwr Cymru wedi suddo<br>Penderfynwyd ymweld â'r ffordd i weld os oedd gwaith wedi ei gwblhau arno.<br><br>m) GW - Ffordd Cae Garw o sgwâr Rhos Isaf - angen ei ail-wynebu<br>Cadarnhaodd GW fod y rhan o'r ffordd wedi ei hail-wynebu.<br><br>n) GW – Drych Rhos Isaf – angen ei lanhau , llun ddim yn glir<br>Cadarnhaodd y clerc y byddai'n mynd yno i weld os roedd y drych wedi ei lanhau.<br><br>o) HR – Maen Coch – Dinas at Garage Dolydd Sbwriel yn casglu<br>Eglurwyd fod sbwriel yn broblem o amgylch ardal Dinas. Cadarnhaodd AMJ fod grŵp gwirfoddol newydd yn cael ei sefydlu i gasglu'r sbwriel.<br><br>p) Enw i'r Stad newydd yn Rhosgadfan<br>Penderfynwyd ar yr enw "Cae Magw" gan mai dyma ydi enw ar y tir lle mae'r stad newydd wedi ei hadeiladu. |
| **6.** | **Derbyn Adroddiadau** |
| | **Derbyn Adroddiadau**<br>a) Ymateb gan CG i faterion a godwyd yng nghyfarfod 15fed o Fai, 2019.<br>Cyfeiriodd y clerc at yr ymatebion a dderbyniwyd.<br><br>b) Ymateb gan Heddlu Gogledd Cymru i'r beiciau modur ar y tir Comin.<br>Nodwyd fod arwyddion i wahardd beiciau modur wedi i'w rhoi i fyny gan y Parc Cenedlaethol. Cyfeiriodd y clerc at e-bost a dderbyniodd gan yr heddlu yn egluro bod safle penodol yn cael ei adeiladu yn Nhalysarn ar gyfer defnyddio beiciau modur. |
| **7.** | **Is-bwyllgor Mynwent** |
| | Nodwyd fod yr is-bwyllgor wedi cyfarfod yn y fynwent am 6.15 cyn y cyfarfod misol ac adroddwyd eu sylwadau:<br><br>BH yn awgrymu cael arbenigwr i wneud ymweliad safle gan fod y tir newydd o faint sylweddol. Byddai arbenigwr yn rhoi cymorth ar le i ddechrau claddu, sut i fynd ymlaen gyda'r ffordd a systemau draenio.<br><br>Awgrymodd BH fod oddeutu 7 - 10 mlynedd ar gael yn y fynwent bresennol felly nid oedd brys mawr i symud ymlaen gyda'r prosiect. Eglurwyd fod yr archwilwyr angen cyfiawnhad ar gyfer yr arian yn y gronfa wrth gefn, cytunodd BH i greu adroddiad yn egluro strategaeth y cyngor ar gyfer cadw'r arian hwn i'r perwyl hwn. |

| | |
|---|---|
| | Gofynnwyd i'r clerc, gysylltu gyda Carter Jonas er mwyn edrych os oedd posibilrwydd o brynu darn o dir ger ochr wal y fynwent. Hefyd estyn gwahoddiad i Iolo, R&O i ofyn sut i wneud y defnydd gorau o dir y fynwent bresennol. |
| **8.** | **Materion Ariannol** |
| | **a) <u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar yr 19eg o Fehefin, 2019</u>**<br><br>**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen (15.05.19) 37,265.18<br>+ Llog 15.40<br><br>**Balans ar derfyn busnes 19eg o Fehefin 2019 <u>£ 37,280.58</u>**<br><br>**<u>2. Cyfrif Siec</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen (15.05.19) **4167.13**<br>+ claddedigaethau 350.00<br><br>- 101428 Cyflog y Clerc – Mai 2019 465.20<br>- Cyllid y Wlad – Mai 2019 105.80<br>- 101429 Designer Signs - arwydd ar giât y fynwent 42.72<br><br>**Balans ar derfyn busnes 19eg o Fehefin, 2019 <u>£3903.41</u>**<br><br>**<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 19eg o Fehefin, 2019</u>**<br><br>Cyflog y Clerc - Mehefin 2019 465.40<br>Cyllid y Wlad – Mehefin 2019 105.60<br>Wyn Williams – Torri gwair 1045.00<br>Cyngor Gwynedd – Rhent tir 1.00<br><br>**Cyfanswm <u>£1617.00</u>**<br><br>Cytunwyd i'r taliadau ar gyfer y mis hwn.<br><br>**b) <u>Adroddiad Archwiliad Mewnol 2018-2019 + cwblhau'r ffurflen i'r BDO</u>**<br><br>Dosbarthwyd copi o Adroddiad Archwiliad Mewnol 2018-19 i'r aelodau ag adroddodd y clerc ar ei chynnwys. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad yn gywir ag i weithredu ar y pwyntiau yr oedd yr archwilydd wedi ei nodi, gyda MW yn cynnig ac EE yn eilio.<br><br>Estynnwyd diolch i'r clerc am ei holl waith a ddarparwyd ar gyfer yr archwiliad hwn. |
| **9.** | **Materion Cynllunio** |
| | **Materion Cynllunio**<br>C19/0498/24/LL – Codi Modurdy – Ty'n Ceunant, Rhostryfan LL54 7NT.<br>Penderfynwyd anfon y cais ymlaen i JH.<br>Nid oedd dim sylwadau a dim gwrthwynebiad wedi ei godi yn y cyfarfod. |

| | |
|---|---|
| | |
| **10.** | **Gohebiaeth a chylchgronau** |
| | **Gohebiaeth a chylchgronau**<br>a) E-bost Japanese Knoweed<br>Derbyniodd y clerc e-byst yn nodi fod Japanese Knotweed yn tyfu'n wyllt ym Mharc Cymunedol Rhosgadfan. Er nad cyfrifoldeb y Cyngor oedd y tir hwn, penderfynwyd y byddai'r clerc yn cysylltu gyda Dion Roberts i holi os oedd ganddo wybodaeth bellach ynglŷn â sut i symud ymlaen gyda'r tir hwn. Unwaith byddai'r tir yn cael ei ddatblygu yn safonol byddai'r cyngor yn ystyried ei fabwysiadu fel rhan o'u rhaglen waith 5 mlynedd.<br><br>Ymholodd BH pwy oedd yn gyfrifol am y caeau chwarae yn yr ardal. Eglurwyd fod y Cyngor Cymuned yn talu yswiriant ar gyfer cae chwarae Rhosgadfan a Rhostryfan. Mynegodd BH bryder, gan fod y Cyngor yn yswirio'r rhain bod goblygiadau i wneud asesiad risg arnynt. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda CG i drefnu arbenigwyr ymweld â'r ddau safle i greu asesiad risg.<br><br>b) CG – Deddf Rheoli Trafnidiaeth – hysbyseb cau amryw ffyrdd.<br>Cyfeiriodd y clerc at waith ail-wynebu oedd i'w gwblhau yn yr ardal.<br><br>c) Dyddiad cyfarfod nesaf Grŵp Cyswllt Chwarel Moel Tryfan.<br>Atgoffwyd aelodau o'r grŵp o ddyddiad y cyfarfod nesaf, sef y 4ydd o Orffennaf, 2019. |
| **11.** | **Materion Cyfarfod Nesaf** |
| | GT – angen bin sbwriel ychwanegol wrth ymyl safle bws Pen Ffridd, Rhosgadfan.<br><br>GT – Gwelfor – angen i'r clerc ofyn pan nad ydi hon yn ffordd mynd trwodd?<br><br>GT - Diffibriliwr Mountain Rangers angen llythyr i'r clwb i ddweud fod y Cyngor Cymuned yn talu am y costau i'w redeg.<br><br>RD - Lladrata yn Rhosgadfan ger y cae chwarae - estyn gwahoddiad i'r heddlu.<br><br>BH - Bro Wyled toriad dwr / byrst - llythyr gan CCG 2018 (dyddiedig 2017) i wneud gwaith datblygu'r beipen ddŵr.<br><br>AMJ – llwybr llechi, garej Garreg Lwyd – coeden gyda gwreiddiau yn tyfu oddi tano – cysylltu gyda Rheilffordd Eryri.<br><br>AMJ – cais am festiau gweladwy ac offer codi sbwriel i'r cyngor.<br><br>**Dyddiad: 17eg o Orffennaf, 2019**<br>**Lleoliad: YSGOL RHOSGADFAN** |